# Rhedeg busnes?

# Cynhyrchu gwastraff?

Daeth y Gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle i rym ar **6 Ebrill 2024.** Ydych chi'n cydymffurfio?

Dylech eisoes fod â threfniadau yn eu lle ar gyfer storio, casglu a gwaredu unrhyw wastraff masnach gan gludwr gwastraff trwyddedig neu fod yn mynd â'r gwastraff hwn i orsaf trosglwyddo gwastraff trwyddedig.

## Beth sydd wedi newid?

Mae gofyniad cyfreithiol ar unrhyw un sy'n cynhyrchu gwastraff o unrhyw weithgaredd busnes i'w wahanu i'r categorïau gwastraff canlynol:

- **Bwyd**
- **Papur a Cherdyn** (gellir ei gymysgu yn yr un blwch)
- **Gwydr**
- **Metel a Phlastig a Chartonau** (gellir eu cymysgu yn yr un blwch)
- **Tecstilau heb eu gwerthu**
- **Offer trydanol ac electronig bach (sWEEE)**

Mae gwaharddiad hefyd ar:

- **Waredu gwastraff bwyd i garthffos (unrhyw faint)**
- **Gwastraff a gesglir ar wahân i'w losgi neu ei ddanfon at dirlenwi**
- **Unrhyw wastraff pren sy'n cael i ddanfon i safleoedd tirlenwi**

## Beth sydd heb newid?

**Rhaid i chi:**

- **Cael contract gyda gweithredwr trwyddedig i gasglu eich gwastraff masnach**
  - ⇒ **Talu am y costau casglu a gwaredu**

**Neu**

- **Mynd â'ch gwastraff masnach eich hun i Orsaf Drosglwyddo drwyddedig**
  - ⇒ **Arbed costau casglu ond nid y costau gwaredu**
  - ⇒ **I wneud hyn efallai y bydd angen i chi gofrestru fel cludwr gwastraff. Am fwy o wybodaeth, ewch i:**

Cyfoeth Naturiol Cymru / Cofrestru neu adnewyddu fel cludydd, brocer neu ddeliwr gwastraff

**Ni ddylid:**

- **Cyflwyno eich gwastraff masnach i'w gasglu gyda/fel gwastraff domestig**
- **Cyflwyno eich gwastraff masnach i'w gasglu mewn/ger biniau sbwriel a phwyntiau ailgylchu**
- **Mynd â'ch gwastraff masnach i Safle Gwastraff Cartref**
- **Llosgi eich gwastraff masnach**

Os gwnewch chi hyn, neu geisio gwneud hyn fe allech chi fod yn destun erlyniad.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**SORTIO!**

Caru·Love Ceredigion

## Newidiadau i bwy?

Mae'r newid yn y gyfraith yn berthnasol i bob busnes, elusen a sefydliad sector cyhoeddus.

Mae hyn yn cynnwys:

- Safleoedd amaethyddol
- Lletygarwch a thwristiaeth - bwytai, bariau, tafarndai, gwely a brecwast, gwestai, gwersylloedd a meysydd carafanau, llety gwyliau, a safleoedd trwyddedig
- Meysydd Sioe
- Gorsafoedd gwasanaeth a gorsafoedd petrol
- Lleoliadau adloniant a chwaraeon gan gynnwys canolfannau hamdden
- Cludiant - gorsafoedd bysus, gorsafoedd rheilffordd, porthladdoedd, meysydd awyr, a safleoedd hofrennydd
- Cartrefi gofal a nyrsio
- Fferyllfeydd, meddygfeydd, deintyddfeydd, a lleoliadau gofal eraill
- Safleoedd adeiladu
- Ffatrïoedd a warysau
- Garejys ceir
- Addysg - prifysgolion, colegau ac ysgolion
- Canolfannau garddio
- Adeiladau treftadaeth
- Llyfrgelloedd ac amgueddfeydd
- Swyddfeydd a gweithdai
- Mannau addoli
- Carchardai
- Marchnadoedd a gwyliau awyr agored
- Ysbytai'r GIG ac ysbytai preifat.

## Sut i newid?

Gall Cyngor Sir Ceredigion ddarparu gwasanaeth ar sail adennill costau llawn. Mae hyn yn golygu fod cynnydd sylweddol wedi bod ym mhris y gwasanaeth casglu gwastraff.

Dangosir crynodeb o'r gwasanaeth y gall y Cyngor ei ddarparu o yn **Nhabl 1**.

Mae darparwyr gwasanaethau eraill i'w cael yn lleol. Dylech ystyried eich opsiynau nawr i gael y trefniadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyfer diwallu eich anghenion yn y ffordd orau posib.

## Pam newid?

Bwriad y newid yw gwella ansawdd a maint yr ailgylchu o weithleoedd sydd o fudd o safbwynt amgylcheddol ac ariannol.

# Mwy o wybodaeth

**Cyffredinol**

Ailgylchu yn y gweithle | GOV. CYMRU

**Cyngor Sir Ceredigion**

I gael gwybodaeth am y gwasanaeth gall y Cyngor ddarparu cyswllt â clic@ceredigion.gov.uk neu ffonio 01545 570881

**Tabl 1: Gwasanaeth Gwastraff Masnach Cyngor Sir Ceredigion o'r 1 Ebrill 2026**

| Deunydd | Amledd | Cynhwysydd | Cost |
|---|---|---|---|
| Bwyd | Wythnosol | Blwch 23ltr<br>Bin ar olwyn 140lr | £67.00 y flwyddyn<br>£6.70 bob casgliad |
| Papur + Cerdyn | Pob pythefnos | Sach Las | £5.30 y sach |
| Gwydr | Pob tair wythnos | Blwch 40ltr<br>Bin ar olwyn 240lr | £67.00 y flwyddyn<br>£11.00 bob casgliad |
| Metel + Plastig + Cartonau | Pob pythefnos | Sach Goch | £5.30 y sach |
| Gweddilliol* | Pob tair wythnos | Sach Oren<br>Bin ar olwyn 240lr<br>Bin ar olwyn 1100lr | £13.30 y sach<br>£50.00 bob casgliad<br>£177.00 bob casgliad |
| Tecstilau heb eu gwerthu | Ar gais | Ar gais | |
| Offer trydanol ac electronig bach (sWEEE) | Ar gais | Ar gais | |

*Noder os gwelwch yn dda, nid oes gan unrhyw gwsmer hawl i gasglu gwastraff na ellir ei ailgylchu yn unig ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod cwsmeriaid nad ydynt yn ymddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r hierarchaeth wastraff.